


Eich iechyd, eich diogelwch

Canllaw cryno ar gyfer gweithwyr



Mae hwn yn fersiwn addas i'r we o daflen INDG450W, a gyhoeddwyd 10/12

Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth hon yn dod o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) mewn cydweithrediad â Chyngres yr Undebau Llafur (TUC). Mae HSE yn gweithio i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles gweithwyr trwy orfodi deddfau iechyd a diogelwch a chynnig cyngor a chymorth. Mae'r TUC yn cynrychioli 55 o undebau llafur gyda mwy na chwe miliwn o aelodau. Mae'n ymgychu o blaid tegwch a safonau derbyniol yn y gwaith.

Os ydych yn gyflogai (amser llawn neu ran-amser, dros dro neu barhaol), mae'r wybodaeth hon yn esbonio beth yw eich hawliau, beth ddylech ei ddisgwyl gan eich cyflogwr, beth yw eich cyfrifoldebau chi a ble i fynd i gael cymorth.

Hefyd mae'n gymwys os ydych yn berson ifanc yn gwneud profiad gwaith, prentis, gweithiwr symudol neu weithiwr cartref, neu weithiwr mudol (hyd yn oed os ydych yn gweithio yn y DU heb ganiatâd).

Os ydych yn weithiwr dros dro, achlysurol neu asiantaeth, mae angen i'ch asiantaeth, meist'r gang neu gontractwr gydweithredu a chyfathrebu â'r busnes sy'n defnyddio'ch gwasanaethau (y llogwr) er mwyn sicrhau y rheolir eich iechyd a diogelwch yn effeithiol.

Os ydych yn wirfoddolwr ac rydych eisiau gwybodaeth bellach ynghylch eich iechyd a diogelwch, ewch at www.hse.gov.uk/voluntary/index.htm.

Eich iechyd a diogelwch

Mae gennych yr hawl i:

- weithio mewn lleoedd ble rheolir yr holl risgiau i'ch iechyd a diogelwch yn gywir;
- roi'r gorau i weithio a gadael yr ardal os ydych yn meddwl eich bod mewn perygl;
- hysbysu'ch cyflogwr o broblemau neu bryderon ynghylch iechyd a diogelwch;
- cysylltu â HSE neu'ch awdurdod lleol, os ydych yn dal i boeni ynghylch iechyd a diogelwch, heb fynd i drafferthion;
- ymuno ag undeb llafur a bod yn gynrychiolydd diogelwch;
- amser taledig i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer hyfforddiant os ydych yn gynrychiolydd diogelwch;

- egwyl orffwys am o leiaf 20 munud os ydych yn gweithio am fwy na chwe awr ar y tro a chyfnod blynyddol o absenoldeb taledig;
- doiledau, cyfleusterau ymolchi a dŵr yfed addas a digonol;
- gyfleusterau cymorth cyntaf digonol.

Mae'n rhaid ichi:

- ofalu am eich iechyd a diogelwch eich hunan ac iechyd a diogelwch pobl eraill a allai gael eu heffeithio gan yr hyn a wnewch (neu beidio);
- gydweithredu ag eraill ar iechyd a diogelwch, heb ymyrryd ag, neu gamddefnyddio, unrhyw beth a ddarperir ar gyfer eich iechyd, diogelwch neu les;
- ddilyn yr hyfforddiant rydych wedi'i dderbyn wrth ddefnyddio unrhyw eitemau gwaith mae'ch cyflogwr wedi'u rhoi ichi.

Cyfrifoldebau'r cyflogwr

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr:

- ddweud wrthyich sut i wneud eich gwaith yn ddiogel mewn ffordd y gallwch ei deall, a dweud wrthyich am y risgiau i'ch iechyd a diogelwch a gyflwynir gan arferion gweithio cyfredol neu arfaethedig;
- ddweud wrthyich sut y caiff unrhyw risgiau eu rheoli a phwy sy'n gyfrifol am hyn;
- ymgynghori â chynrychiolwyr diogelwch a chyflogeion a gweithio gyda hwy er mwyn diogelu pawb rhag niwed yn y gweithle;
- ddweud wrthyich sut i gael triniaeth gymorth cyntaf a beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr ddarparu, yn ddi-dâl:

- hyfforddiant i'ch galluogi i wneud eich gwaith yn ddiogel;
- unrhyw gyfarpar a deunyddiau diogelu sydd eu hangen ichi yn y gwaith (megis dillad, esgidiau neu esgidiau mawr, cyfarpar diogelu llygaid a chlustiau, menig, masgiau ac ati) a sicrhau y gofalir am hyn oll;
- gwiriadau iechyd os oes perygl o afiechyd oherwydd eich gwaith;
- gwiriadau iechyd rheolaidd os ydych yn gweithio nosau a gwiriad cyn ichi ddechrau.

Sylwer: Os ydych yn wirioneddol hunan-gyflogedig, rydych yn gyfrifol am ddarparu'ch trefniadau cymorth cyntaf, hyfforddiant, cyfarpar diogelu a gwiriadau iechyd eich hunan, ac am drefnu'ch amser gweithio'ch hunan.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr ddarparu'r wybodaeth ddilynol ichi:

- y poster ynghylch deddfau iechyd a diogelwch (www.hse.gov.uk/pubns/books/lawposter.htm), y mae'n rhaid ei arddangos mewn lle amlwg, neu gall ddarparu copi o'r cerdyn poced cyfatebol i bob gweithiwr. Dylai hwn roi manylion cyswllt pobl a all helpu;
- ei ddatganiad polisi iechyd a diogelwch;
- tystysgrif Atebolwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) gyfredol (www.hse.gov.uk/pubns/hse40.pdf) sy'n weladwy yn eich gweithle.

Beth i'w wneud os ydych yn poeni ynghylch eich iechyd a diogelwch

I gael cyngor, ewch at www.hse.gov.uk/workers/index.htm, neu i gwyno, ewch at www.hse.gov.uk.

Ar gyfer hawliau cyflogeion, ewch at wefan workSMART Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) yn www.worksmart.org.uk, neu fel arall gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Cyflogau a Hawliau'r Gweithle ar 0800 9172 368.

Am wybodaeth ynghylch iechyd a diogelwch mewn ystod o wahanol ieithoedd, ewch at www.hse.gov.uk/migrantworkers/index.htm.


Os ydych wedi colli'ch swydd o ganlyniad i fater iechyd a diogelwch, efallai byddwch yn gallu cwyno wrth Dribiwnlys Cyflogaeth. Gofynnwch i'ch undeb llafur neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol am gyngor.

Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondeb neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk. Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein a chyhoeddiadau am bris eraill o'r wefan hon. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y cyfarwyddyd hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y cyfarwyddyd, oni bai y datgenir yn benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os ydych yn dilyn y cyfarwyddyd, fel arfer byddwch yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith ac efallai byddant yn cyfeirio at y cyfarwyddyd hwn.

Gellir gweld y daflen hon yn: www.hse.gov.uk/pubns/indg450.htm.

©  *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon ewch at www.hse.gov.uk/copyright.htm i weld manylion. Cyhoeddiad cyntaf 10/12.